



Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau

Cwsmeriaid: 0303 444 5000

e-bost: [hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk](mailto:hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk)

At: Yr Ymgeisydd

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 26 Mehefin 2023

Annwyl Syr/ Fadam

## Deddf Cynllunio 2008 – Adran 89

### Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

#### Hysbysiad gan yr Ymgeisydd o fwriad i gyflwyno cais i wneud newidiadau i'r cais

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mehefin 2023 [REP4-270] yn rhoi gwybod am Hysbysiad o Fwriad Liverpool Bay CCS Limited i Gyflwyno Cais i Newid (3) (NISCR3) er mwyn gwneud newidiadau i'r cais. Fe'i cyhoeddwyd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir dod o hyd iddo gan ddefnyddio'r ddolen uchod. Mae NISCR3 yn amlinellu:

- newidiadau'r Ymgeisydd i'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys disgrifiad o'r newidiadau a chyfiawnhad iddynt;
- ni fydd angen unrhyw newidiadau posibl i'r Datganiad Amgylcheddol (ES), fel y dangosir gan Nodyn Technegol Amgylcheddol (ETN) sydd i'w gyflwyno gyda'r Cais i Newid (CR) ffurfiol;
- manylion dull ymgynghori arfaethedig yr Ymgeisydd;
- graddfeydd amser dangosol yr Ymgeisydd ar gyfer cyflwyno'r newidiadau; a'r
- deunydd ychwanegol y mae'r Ymgeisydd yn bwriadu ei gyflwyno yn rhan o'r Cais CR perthnasol.

Mae'r llythyr yn honni bod yn hysbysiad o CR yn unol â Cham 1 y weithdrefn a argymhellir yn 'Nodyn Cyngor 16 yr Arolygiaeth Gynllunio: Gofyn am gael newid ceisiadau ar ôl iddynt gael eu derbyn i'w harchwilio' (AN16). Mae NISCR3 [REP4-270] yr Ymgeisydd yn disgrifio'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun ac yn nodi y bydd CR yn cael ei gyflwyno

erbyn Terfyn Amser 5 (Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023) yn Amserlen yr Archwiliad. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio cyngor gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ynglŷn â'r materion uchod, er mwyn caniatáu iddo benderfynu sut i symud ymlaen â'r cais CR perthnasol.

Nid yw'r Ymgeisydd wedi gwneud sylwadau ar berthnasedd y newidiadau arfaethedig, naill ai'n unigol nac o'u hystyried gyda'i gilydd, ac, yn y pen draw, mater i'r ExA yw penderfynu p'un a yw'r newidiadau arfaethedig yn berthnasol ai peidio pan gyflwynir y cais ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi bod y newidiadau arfaethedig yn cynnwys:

- dileu'r Cyfadeilad Logisteg ac Adeiladu Dros Dro (Gwaith Rhif 41A);
- dileu'r Ardal Weithio Dros Dro (Gwaith Rhif 41D); ac
- ymestyn y Fynedfa Dros Dro (Gwaith Rhif 41B) i gyrraedd y Gwaith Piblinell Carbon Deuocsid (Gwaith Rhif 41), o ystyried dileu'r gwaith uchod.

Mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd y newidiadau arfaethedig uchod yn arwain at ddileu tir o Derfynau'r Gorchymyn (yn benodol lleiniau tir 18-08, 18-09, 18-12 a dileu llain 18-13 yn rhannol), ac na fydd effaith ar unrhyw dir newydd.

Mae'r ExA o'r farn bod NISCR3 [REP4-270] yn rhoi disgrifiad clir o'r newid arfaethedig ac yn amlinellu sail resymegol yr Ymgeisydd a'r angen am wneud y newidiadau yn y ddogfen honno. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol newydd neu sylweddol wahanol, ond mae arno angen gwybodaeth ychwanegol, sy'n debygol o gael ei chynnwys yn yr ETN, i ddod i farn derfynol, yn hyn o beth.

O ran 'tir ychwanegol', mae'r ExA yn nodi honiad yr Ymgeisydd nad yw'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod angen cynnwys "tir ychwanegol" (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 (y Rheoliadau CA). Fodd bynnag, os na fydd hyn yn wir ac mae 'tir ychwanegol' yn cael ei gynnwys yna, heb gydsyniad y tiffeddiannwr, byddai'r Rheoliadau CA yn berthnasol, a bydd angen y wybodaeth a ragnodir gan Reoliad 5 y Rheoliadau CA ac eglurhad y gellir bodloni gofynion gweithdrefnol y Rheoliadau CA o fewn y cam Archwilio chwe mis statudol sy'n weddill.

## Ymgynghori

Mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd yn cadarnhau na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn creu unrhyw unigolion newydd yr effeithir arnynt a bod tiffeddiannwr perthnasol ardal y cyfadeilad, y ceisir ei dileu, wedi gofyn yn benodol am geisio'r newid hwn yn rhan o waith ymgysylltu parhaus. Yn wir, mae'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ddileu buddiannau tir sy'n destun caffael gorfodol. Fel y cyfryw, nid yw'r Ymgeisydd o'r farn bod angen ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig na rhoi cyhoeddusrwydd iddynt o dan y Rheoliadau CA na Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.

Ar sail y wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd hyd yma, nid yw'r ExA yn anghytuno o reidrwydd â chasgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn ag ymgynghori. Fodd bynnag, mewn unrhyw gyflwyniad CR ffurfiol, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd gyfiawnhau pam nad yw'r newidiadau

arfaethedig yn effeithio ar unrhyw unigolyn o dan adran 42(1)(a) i (d) ac felly ni ymgynghorwyd ag ef. O ystyried yr uchod i gyd, mae'r ExA yn ymatal rhag rhoi ei farn ynglŷn â'r mater hwn hyd nes bod y cais CR ffurfiol wedi cael ei gyflwyno.

Os bydd angen y cyfryw ymgynghoriad, byddai angen i'r Cais:

- ymgysylltu â'r holl unigolion a nodir yn Neddf Cynllunio 2008 o dan adran 42(a) i (d) y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt (gan roi 28 niwrnod o leiaf), gan gynnwys unrhyw unigolion adran 42 nad ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r cais yn wreiddiol ond y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio arnynt bellach;
- ystyried p'un a allai fod angen i unigolion nad ydynt eisoes yn cymryd rhan yn yr Archwiliad (ac nad ydynt yn dod o fewn adran 42) gael cyfle i wneud sylwadau ai peidio (fel unigolion sy'n byw neu endidau masnachol sy'n gweithredu y tu allan i derfynau'r Gorchymyn); a
- ph'un a oes unrhyw hysbysiadau papur newydd neu hysbysiadau safle yn angenrheidiol ai peidio i roi gwybod i'r unigolion hyn am y newidiadau arfaethedig.

Wrth gyflwyno'r CR ffurfiol, argymhellir bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno datganiad sy'n cadarnhau nad amlygwyd unrhyw unigolion newydd (y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt) o dan adran 42(1)(a) i (d) y mae angen ymgynghori â nhw. Os amlygir unrhyw unigolion newydd y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, cynghorir yr Ymgeisydd, yn rhan o unrhyw gyflwyniad CR ffurfiol, i:

- ddarparu rhestr o unigolion (y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt) gan amlygu unrhyw unigolion newydd (h.y. y rhai hynny yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r newid arfaethedig ond nid ynglŷn â'r cais gwreiddiol);
- amlygu (o fewn y rhestr uchod) yr unigolion adran 42(1)(d) hynny sy'n "unigolion yr effeithir arnynt", sef yr unigolion hynny y bydd pwerau Caffael Gorfodol yn cael eu harfer dros eu tir. Nodir os bwriedir dilyn y weithdrefn o dan y Rheoliadau CA, bydd angen i'r Ymgeisydd hefyd gyflwyno cais am dir ychwanegol ac amlygu'r Unigolion ychwanegol yr Effeithir Arnynt;
- cyfiawnhau pam nad yw'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw unigolyn o dan adran 42(1)(a) i (d) ac felly ni ymgynghorwyd ag ef;
- darparu copïau o unrhyw hysbysiadau papur newydd neu hysbysiadau safle neu gyfiawnhad ynglŷn â pham nad oes angen y cyfryw gyhoeddusrwydd cyffredinol i sicrhau tegwch, gan ddefnyddio cyfraith achosion fel y bo'r angen i gefnogi safbwynt yr Ymgeisydd; ac
- ychwanegu atodiad sy'n cynnwys unrhyw ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd.

Os bydd yr ExA yn penderfynu derbyn y newidiadau (p'un a ydynt yn berthnasol ai peidio) i'r Archwiliad, bydd yr holl Bartion â Buddiant yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cais sydd wedi'i newid yn ysgrifenedig neu ar lafar mewn gwrandawiadau wrth i'r Archwiliad symud ymlaen. Er hynny, os nad yw'r ExA yn fodlon â graddau'r ymgynghoriad anstatudol

a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd, gallai'r ExA ofyn i ymgynghoriad anstatudol ychwanegol gael ei gynnal i ddiogelu buddiannau a/ neu hysbysu'r rhai y gallai'r newidiadau effeithio arnynt nad ydynt eisoes yn ymwneud â'r Archwiliad.

## **Y camau nesaf**

Felly, gofynnir i'r Ymgeisydd sicrhau bod y CR y bwriedir ei gyflwyno erbyn Terfyn Amser 5 yn ymateb yn llawn i'r pwyntiau a wnaed uchod. Yn ogystal, heb ragfarnu unrhyw farn ynglŷn â pherthnasedd neu rinweddau'r newidiadau arfaethedig i'r cais, gallai'r ExA ddymuno deall mwy am natur y newidiadau a'u heffeithiau. Fel y cyfryw, gallai'r ExA ddymuno gofyn cwestiynau am y newidiadau arfaethedig hyn yn y gwrandawiadau sydd i ddod a drefnwyd ar gyfer mis Awst 2023. Gallai'r ExA hefyd deimlo bod angen paratoi cwestiynau ysgrifenedig ychwanegol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig hyn.

Sylwer bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu derbyn ar y sail y gellir cwblhau'r holl brosesau yn yr amser sy'n ofynnol cyn diwedd yr Archwiliad ac yn unol ag unrhyw Amserlen Archwiliad ddiwygiedig a allai gael ei chyhoeddi, maes o law. Os na chyflawnir hyn, ni fyddwn mewn sefyllfa i ystyried y CR yn ein hadroddiad argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol gan na fydd wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol perthnasol.

Yn gywir

*Christopher Butler*

## **Aelod Arweiniol y Panel (Awdurdod Archwilio)**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.  
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.